Gwyliau Yn ystod Amser Tymor Canllaw

Ni ddylech fynd â'ch plentyn ar wyliau yn ystod y tymor oherwydd fe allai hyn darfu ar addysg eich plentyn ac ar yr ysgol.

Dim ond y pennaeth neu rywun â'r awdurdod priodol gaiff gytuno i chi fynd â phlentyn ar wyliau yn ystod y tymor a hynny yn ôl eu doethineb:

- Fel arfer y rhiant mae'r plentyn yn byw gyda'r gymwys i'r ysgol cyn y gwyliau
- Mae yna resymau arbennig am y gwyliau

Dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gallant gytuno i'r plentyn fod yn absennol am 10 diwrnod ar y mwyaf mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Dylech drafod unrhyw gynlluniau gwyliau gyda'r ysgol cyn i chi eu trefnu.

Bydd pob cais am wyliau'n cael ei drin ar ei haeddiant ei hun ac ystyrir y canlynol:

- ar ba adeg o'r flwyddyn y bwriedir mynd
- a yw'r adeg honno'n agos at amser arholiadau
- patrwm presenoldeb eich plentyn yn gyffredinol
- unrhyw wyliau a gymerwyd eisoes yn ystod y flwyddyn ysgol
- oedran eich plentyn ac ar ba gyfnod y mae yn yr ysgol
- eich dymuniadau chi
- gallu'ch plentyn i gwblhau'r gwaith y mae wedi'i golli
- y rheswm pam eich bod yn cymryd amser i ffwrdd yn ystod tymor yr ysgol

Ni fydd ysgolion yn ystyried eich cais am wyliau os mai un o'r rhesymau canlynol sydd wrth wraidd eich penderfyniad:

- eich bod eisiau mynd ar wyliau gan ei fod yn rhad ar adeg benodol
- eich bod yn dewis mynd ar wyliau ar sail y math o lety yr ydych yn chwilio amdano, a phryd y mae ar gael
- y tywydd wedi bod yn wael yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol
- bod y gwyliau'n gorgyffwrdd â dechrau neu ddiwedd tymor yr ysgol